# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 19.09.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Evie Morgan-Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Elin Walker Jones, Dilwyn Lloyd, W. Tudor Owen, Peter Read, Ieuan Roberts, W. Gareth Roberts a Gwilym O. Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Louise Hughes a Dewi Llewelyn

<u>Croeso</u>
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Elin Walker Jones i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.**

Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'w cyd-aelodau am y dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ei anhwylder diweddar.

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Evie Morgan Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2010 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog:-

(a) 7 Hydref 2010

(b) 5 Tachwedd 2010
(c) 15 Rhagfyr 2010
(ch) 18 Ionawr 2011
(d) 24 Ionawr 2011
(dd) 3 Chwefror 2011
(e) 16 Mawrth 2011
(f) 10 Mai 2011
(ff) 25 Mai 2011
(g) 8 Mehefin 2011
(ng) 6 Gorffennaf 2011

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**6. UCHAFSWM PRISIAU CERBYDAU HACNI**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar adolygu prisiau cerbydau hacni.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu i'r Cyngor dderbyn cais gan Gymdeithas Hacni Meirionnydd yn gofyn iddynt adolygu prisiau cerbydau hacni yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn pris tanwydd, a'u bod yn argymell codi prisiau yn ymwneud â theithio'n unig.

Eglurwyd yr hybysebir y prisiau yn y wasg, ac oni dderbynnir gwrthwynebiadau, byddent yn weithredol ymhen cyfnod o fis. Fodd bynnag, os y derbynnir gwrthwynebiadau, fe'i cyflwynir yn ôl i'r pwyllgor am ystyriaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prisiau canlynol:-**

| | |
|---|---|
| **Milltir gyntaf** | **3.00** |
| **Pob milltir wedyn** | **2.50** |
| **Amser aros** | **0.25** |
| **Bagiau ychwanegol** | **0.25** |
| **Person ychwanegol** | **0.40** |
| **Cludo anifeiliaid** | **1.20** |
| **Baeddu cerbyd** | **45.00** |

**7. FFIOEDD TRWYDDEDU 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar adolygu Ffioedd Trwyddedu am 2011/12.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adolygu'r ffioedd yn flynyddol. Nododd bod adolygiad o Ffioedd Gwarchod y Cyhoedd, yn cynnwys y ffioedd trwyddedu, yn cyfrannu at raglen arbedion £16m y Cyngor. Cymeradwywyd y bwriad i adolygu'r ffioedd ac i gyfrannu at y swm arbedion hwn ar 10 Rhagfyr 2010. Codwyd y ffioedd mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Portffolio ond mae angen cymeradwyaeth y pwyllgor hwn i hynny.

Deddf Trwyddedu 2003
Nododd y Rheolwr Trwyddedu bod y ffioedd hyn yn rhai statudol ac nid oes disgresiwn gan gynghorau unigol i'w diwygio. Fodd bynnag, gallai hyn newid yn ystod y misoedd nesaf gyda'r llywodraeth yn adolygu'r ddeddf ac yn awgrymu y byddai hawl gan y cynghorau unigol i ddiwygio'r ffioedd. Cyflwynir adroddiad pellach ar hyn pan dderbynnir rhagor o wybodaeth.

Deddf Gamblo 2005
Hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu, yn wahanol i'r Ddeddf Trwyddedu, bod disgresiwn gan gynghorau unigol i osod ei ffioedd eu hunain, cyn belled nad ydynt yn mynd yn uwch na'r uchafswm a osodwyd gan y llywodraeth. Pan ddaeth y ddeddf i rym yn 2007, penderfynodd y Cyngor i beidio â chodi'r uchafswm a ganiateir ym mhob achos, ond dilyn yr un llwybr a gweddill cynghorau Gogledd Cymru a pennu ffi ar y ffioedd blynyddol o 80% o'r uchafswm. 'Roedd o'r farn y dylid codi'r ffi i'r uchafswm a ganiateir ar y rhai hyn nad oedd ar 100% o'r dechrau. Rhagwelir y bydd awdurdodau eraill yn debygol o ddilyn llwybr cyffelyb.

Trwyddedau Hacni a Hurio Preifat
Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod y ffioedd a godwyd gan y Cyngor am y gwasanaeth hwn wedi bod ymhlith y rhataf yng Nghymru. Mae amrywiaeth sylweddol yn y ffioedd a godir gan y gwahanol gynghorau, hyd yn oed ar draws Gogledd Cymru. Nododd bod y ffioedd a osodir ar y lefel cyfartaledd ffioedd a oedd yn bodoli ar draws Gogledd Cymru yn ystod 2010/11.

Sefydliadau Rhyw
Nododd y Rheolwr Trwyddedu mai un sefydliad sy'n dal trwydded am Sefydliad Rhyw yng Ngwynedd ac 'roedd o'r farn bod y ffioedd presennol yn ddigon uchel.

Marchnadoedd a Ffeiriau
Argymhellodd y Rheolwr Trwyddedu nad yw'r Cyngor yn codi'r ffioedd hyn. Nododd bod marchnadoedd Gwynedd yn gyffredinol yn llwyddiannus o ran niferoedd a bod hynny'n rhannol oherwydd y gostyngwyd y ffioedd a godwyd rhai blynyddoedd yn ôl. Dengys tystiolaeth bod gostwng y ffi wedi llwyddo i warchod yr incwm i'r Cyngor ac yn fodd i gadw'r marchnadoedd yn hyfyw.

O ran ffeiriau, hysbysodd bod y sefyllfa ychydig yn wahanol, gyda'r incwm a dderbynia'r Cyngor yn gostwng. 'Roedd o'r farn y byddai codi'r ffioedd yn arwain at wanhau'r perfformiad ymhellach ac felly creu gostyngiad pellach yn yr incwm. Argymhellodd beidio â newid y ffioedd hyn.

Gofynnodd aelod os oedd y ffioedd ar gyfer cynnal ffeiriau pleser wedi codi. Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ffioedd ar gyfer hyn ond yn hytrach fe dendrir am y gwasanaeth a derbynnir y tendr uchaf. Cytunodd y swyddog i gyflwyno adroddiad ar y mater.

Cyfeiriodd aelod at y ffair bleser a gynhelir ar Y Maes, Caernarfon a gofynnodd pwy oedd yn gyfrifol am roddi caniatâd ar ei gyfer. Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu mai'r Adran Drafnidiaeth mewn ymgynghoriad â Cyffro, sef y trefnwyr, sy'n gyfrifol am y caniatâd. Fe benderfynir ar y ffi i'w godi am gynnal y gweithgaredd hwn, eto, rhwng yr Adran Drafnidiaeth a'r trefnwyr. Nododd i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd sefydlu Gweithgor Marchnadoedd a Ffeiriau i roddi ystyriaeth i drefniadau marchnadoedd a ffeiriau, a rhoddir sylw penodol i drefniadau'r farchnad ar Y Maes, Caernarfon. Cyflwynir adroddiad y gweithgor maes o law i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd. Cytunwyd bod yr Uwch Arweinydd Portffolio Amgylchedd i drafod mater y ffair bleser ar Y Maes, Caernarfon gyda'r Adran Drafnidiaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ffioedd am 2011/12 yn unol ag Atodiad 1 o'r adroddiad.**

## 8. DIDDYMU PARTHAU HACNI O FEWN GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar y bwriad o ddiddymu parthau hacni o fewn Gwynedd.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu mai cyfrifoldeb y cynghorau dosbarth/bwrdeistref cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 oedd trwyddedu cerbydau hacni a oedd yn rhoddi hawl i'r cerbydau weithio fel cerbydau hacni yn yr ardal honno'n unig. Nid oedd hawl cyfreithiol i gerbyd hacni weithio, fel hacni, tu allan i'r awdurdod a oedd yn eu trwyddedu. Felly, 'roedd cerbyd a drwyddedwyd fel hacni yn Arfon ond yn gallu gweithredu fel hacni yn Arfon ac yn yr un modd ym Meirionnydd a Dwyfor.

Cyn 1996, 'roedd amodau Arfon yn wahanol i'r ddau gyngor arall oherwydd y dengys archwiliad nad oedd angen rhagor o gerbydau hacni a chyfyngwyd y nifer a ganiatawyd i 96. Nid oedd cyfyngiad ar y niferoedd yn y ddau gyngor arall. Yn 1996, ar ddyfodiad Cyngor Gwynedd, penderfynwyd cadw'r dair ardal a chadw'r gwahanol amodau. 'Roedd cyfanswm ar y niferoedd o gerbydau a ganiateir yn Arfon ond nid yng ngweddill y sir. I gyfiawnhau cadw'r amod penodol yn Arfon, 'roedd angen arolwg i sefydlu'r gofyn pob tair blynedd. Yn dilyn trafodaethau gyda'r diwydiant, penderfynodd y pwyllgor hwn yn 2006 i ddileu'r cyfyngiad niferoedd ond gosod amodau newydd yn Arfon yn unig. Byddai'r 96 perchennog, neu 98 erbyn hynny'n cael gwarchodaeth o ran yr amodau a.y. a byddai angen i unrhyw un arall a oedd angen trwydded o'r newydd orfod cael cerbyd llai na tair oed a oedd yn addas hefyd ar gyfer cludo cadair olwyn.

'Roedd o'r farn, bod yr amser yn addas erbyn hyn i ddiddymu'r dair parth fel bod pawb o fewn Gwynedd yn gweithio dan yr un amodau. Nododd bod Canllawiau Ymarfer Da a gyhoeddwyd gan Adran Drafnidiaeth y Llywodraeth yn 2010 yn annog cynghorau i wneud i ffwrdd ag unrhyw barthau ar sail tegwch, cydymffurfiaeth ac i hwyluso gorfodaeth.

Nododd oherwydd penderfyniad llys yn ddiweddar, gallai cerbyd hacni, drwy weithredu fel cerbyd hurio preifat, weithio'n rhywle, o fewn neu tu allan

i'r sir. O ganlyniad i hyn, 'roedd bron yn amhosibl i wneud gwaith gorfodaeth o fewn y sir o ran rheoli cerbydau hacni a'r parthau. Felly, gellir cael cerbyd hacni, wedi ei drwyddedu fel hacni yn Arfon, yn gweithio'n hollol gyfreithiol yn Nwyfor neu Meirionnydd, cyn belled a'i fod yn gweithio fel cerbyd hurio preifat ac yn cyd-fynd â gofynion y rheolau sy'n berthnasol i hurio preifat o ran llogi'r cerbyd a chytuno ar y tal ymlaen llaw.

'Roedd aelod o'r farn y dylid cael ymateb perchenogion cerbydau hacni cyn penderfynu'n derfynol ar y mater.

**PENDERFYNWYD hysbysu'r diwydiant y diddymir y dair parth hacni ac y bydd Gwynedd yn gweithredu fel un parth o 1 Ionawr 2012 ymlaen.**
(Gofynnodd y Cynghorwyr Elin Walker Jones, W. Tudor Owen a Gwilym Williams am gael cofnodi iddynt bleidleisio yn erbyn y penderfyniad)

Ar derfyn y cyfarfod cyfeiriodd aelod at y ffaith iddo weld datganiad yn y wasg yn ddiweddar gan y Cynulliad yn nodi na fyddai'n ofynnol o hyn ymlaen i dafarndai gyflwyno ceisiadau am drwydded adloniant. Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu bod y Cynulliad yn ymgynghori ar y bwriad o ddileu'r gofyn ar sefydliadau sy'n gallu gymryd llai na 5,000 o bobl i osod amodau megis lefelau sŵn a.y. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol gosod amodau os y cynhelir paffio ac ymaflyd codwm dan do.

**PENDERFYNWYD bod y swyddogion perthnasol yn ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Arweinydd Portffolio ar ôl derbyn yr ymgynghoriad ac os bydd amser yn caniatau, ei gyflwyno i ystyriaeth y pwyllgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10.45am